**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**16eg Gorffennaf 2012**

**AMCANION GWELLA 2012-13**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Argymhell bod yr aelodau'n manteisio ar y cyfle i ailddatgan yr Amcanion Gwella y mae'r Awdurdod wedi eu cyhoeddi am y flwyddyn gyfredol (2012-13).

**Gwybodaeth**

2 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009, fe wnaeth yr Awdurdod, ym mis Hydref 2010, gyhoeddi cyfres o amcanion gwella ar gyfer 2011-12.

3 Cafodd rhagor o amcanion eu hychwanegu yn ddiweddarach o ganlyniad uniongyrchol i benderfyniad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2010 i rewi'r gyllideb flynyddol ar £32 miliwn o 2011-12 hyd at 2013-14.

4 Ym mis Mai 2011, oherwydd:
a) cwmpas eang yr amcanion presennol;
b) yr angen i ganiatáu amser i gydgyfnerthu'r amcanion presennol;
c) amserlen annisgwyl o dynn Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi cynllun gwella 2012-13, a'i phenderfyniad ar y pryd i ohirio'r gorchwyl o lunio Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Tân ac Achub;

penderfynodd yr Awdurdod i ddwyn yr un amcanion ymlaen i 2012-13 ag yr oedd wedi eu mabwysiadu ar gyfer 2011-12. Cafodd y rhain eu cyhoeddi ym mis Hydref 2011, ac maent ynghlwm yn Atodiad 1 fel y gellir cyfeirio atynt.

## Gwybodaeth

5 Nawr, mae gan yr Awdurdod gyfle i ailddatgan ei amcanion ar gyfer 2012-13. Mae nifer o fanteision i hyn, gan gynnwys:

a) cyflwyno neges gliriach am y meysydd sydd yn flaenoriaethau i'r Awdurdod;

b) rhoi cyfres o amcanion sydd â gwell ffocws o safbwynt y gwaith monitro ac adrodd.

6 Ni fyddai'r amcanion presennol sy'n weddill yn cael eu colli. Byddent yn parhau i gael eu hymgorffori o fewn cynlluniau gweithredu'r adrannau i gael eu gwireddu fel y bwriadwyd, a thrwy hynny byddent yn cyflawni dyletswydd gyffredinol yr Awdurdod i sicrhau gwelliant.

7 Byddai'r amcanion eu hunain yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau, gyda'r meini prawf ar gyfer mesur (dangosyddion cyflawniad llwyddiannus) wedi eu nodi'n glir.

8 Cadarnhaol fu ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i'r posibilrwydd o fabwysiadu'r dull hwn.

9 Cynigir y gellid cwtogi'r wyth amcan ar gyfer gwella yn ddau yn unig – ac mae'r, ynghyd â'r dangosyddion, yn Atodiad 2.

## Argymhelliad

10 Bod yr aelodau yn:

a) cymeradwyo'r cynnig i ailddatgan wyth amcan presennol yr Awdurdod, ac

b) cytuno ar yr amcanion sy'n cael eu hailddatgan ar gyfer y flwyddyn bresennol (2012-13).

**ATODIAD 1**

| | |
|---|---|
| | **<u>Amcanion Gwella 2012-13 (presennol)</u>** |
| | |
| **AMC 1** | Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. |
| | |
| **AMC 2** | Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n digwydd yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig, fel bod gweithgarwch arferol yn gallu parhau ac nad yw bywydau pobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno'n cael eu rhoi mewn perygl. |
| | |
| **AMC 3** | Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol. |
| | |
| **AMC 4** | Cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl. |
| | |
| **AMC 5** | Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub. |
| | |
| **AMC 6** | Dod yn well am adnabod ac ymgysylltu â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les, a lleihau'r risg i'w diogelwch personol. |
| | |
| **AMC 7** | Sicrhau bod trefniadau Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes y Gwasanaeth mor gynhwysfawr a sicr ag y gallent fod. |
| | |
| **AMC 8** | Ceisio ffyrdd i leihau cost gyffredinol rhedeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu gyda chyllideb flynyddol o £32 miliwn hyd at 2013-14. |
| | |

**ATODIAD 2**

| | |
|---|---|
| | **<u>Amcanion Gwella Ailddatganedig 2012-13 (a gynigir)</u>** |
| | |
| **AMC 1(ail)** | Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. |
| | |
| | <u>Dangosyddion Allweddol o gyflawniad llwyddiannus:</u> |
| | |
| | • Gostyngiad yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. |
| | • Cynnydd yng nghanran y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi. |
| | • Gostyngiad yng nghanran y tanau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg yno. |
| | • Cynnydd yng nghanran yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner. |
| | • Gostyngiad yn nifer gorsafoedd y System y Ddyletswydd ar gael yn ôl y Galw sydd heb fod ar gael nad oes digon o griw. |
| | • Datblygu safon cyrraedd lleol, a mesuriad gwaelodlin yn ei herbyn. |
| | |
| | |
| **AMC 2(ail)** | Ceisio ffyrdd i leihau'r gost gyffredinol o redeg y Gwasanaeth bob blwyddyn, a hynny er mwyn gweithredu gyda chyllideb flynyddol o £32 miliwn hyd at 2013-14. |
| | |